



Cyngor Cymuned Llandwrog  
Community Council

Cofnodion Cyfarfod Fideo y Cyngor  
Council Video Meeting Minutes

27 Gorffennaf 2020 / 27 July 2020

# **Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council**

Cofnodion y cyfarfod fideo o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun 27 Gorffennaf 2020. *Minutes of the Video Council Meeting held Monday evening, 27 July 2020.*

**Yn bresennol / Present - 9 aelod / 9 members**

**Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron**

Cyng. Gwyn Owen Jones;

**Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel**

Cyng. Alan Patterson; Cyng. Bryn Williams

**Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon**

Cyng. Alun Wyn Jones; Cyng. David C Davies; Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Eddie Willcox

**Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle**

Cyng. Marnel Pritchard; Cyng. Clive Bayley

**Hefyd yn bresennol / Also in Attendance-**

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / [Council's Administrative & Finance Manager](#)

Cynghorydd Eric Jones , Aelod Cyngor Gwynedd / [Member of Gwynedd Council](#)

Dion Roberts, Swyddog Prosiect Cysylltu Comin a Chymuned Uwch Gwyrfai. / [Uwch Gwyrfai Common and Community Links Project Officer](#)

Ann Llwyd Williams , Cyfiethydd / [Translator](#)

---

20-07b-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / Chairman's Welcome**

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor, Cynghorydd. Alun Wyn Jones am 8 o'r gloch yr hwyr. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Atgoffwyd pawb o'r trefniadau cynnal cyfarfod fidio.

Croesawyd Cyng. Eric Jones , aelod o Cyngor Gwynedd dros Ward Groeslon a Llandwrog. Hefyd croesawyd Dion Roberts o Parc Cenedlaethol Eryri ac Ann Llwyd Williams oedd yn cyfiethu un i un i Cyng. Eddie Willcox

Aeth yn syth at y rhaglen

---

20-07b-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / Apologies for Absences**

Cyng. Hywel J Owen

---

20-07b-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw o Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol / No member present declared a personal o'r prejudicial interest.

**Cynllun Cysylltu Tir Comin Uwch Gwyrfaï – Upper Gwyrfaï Scheme – Diweddariad / Update** gan Dion Roberts ,Swyddog Prosiect Cysylltu Comin a Chymuned Uwch Gwyrfaï (Parc Cenedlaethol Eryri) . / **Uwch Gwyrfaï Common and Community Links Project Officer (Snowdonia National Park)**

Cafwyd y diweddariad canlynol o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma –

**Mynydd Cilgwyn** - wedi mynd ati i dorri eithin ger anheddau - stripynau wedi ei dorri i atal tan ac i hybu rhywogaethau o grug.

**Grantiau waliau** - grantiau o 70% yn cael ei gynnig i adfer waliau cerrig - wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni – angen' rwan dewis a dethol.

**Llwybr Ffynnon Dwr Oer** – hen lwybr march wedi mynd yn wlyb. YGC Cyngor Gwynedd wedi ennill y contract i neud gwelliannau. Gobaith yw cynnwys byrddau picnic a byrddau dehongli ar y llwybr. Cysylltu gyda llwybr Nantlle/Fron – gwell lle i farchogwyr

**Plannu coed ar y comin** – Perchnogwyr y tiroedd, sef Stad Tir y Goron a Nick Smith, wedi rhoi caniatad yn amodol fod yna ymgynghoriad gyda trigolion lleol. Bydd llythyr yn cael ei anfon i pawb sydd yn byw oddi fewn 200medr i unrhyw gynllun plannu coed a gwrychoedd. Bwriedir plannu gwrychoedd ar hyd y ffens sydd yn dod lawr ar hyd y mynydd (gyferbyn Tomen Shibi) o Penmaentwrog at y tanc dwr. Y syniad yw y bydd hwn yn cadw stoc ar y comin, yn lloches i stoc ac yn ffordd da i gysylltu gwahanol gyneffionedd ar y comin.

**Grid y Fron** - cwmni arbenigol wedi awgrymu i beidio gosod grid. Parc wedi mynd gyda'r farn oherwydd y sŵn annaturiol. Angen rŵan pendroni ar sut i gadw defaid i ffordd o bentref y Fron.

**Tomen Trallwyn, Cilgwyn** – angen gwaith yma. Bwriedir ail hadu y safle – hadau o grug lleol. Arbennigwyr yn cyflawni'r gwaith o Sir Amwythig. Gwaith yn cychwyn mis Hydref.

**Sefydlu ardal berllan gymunedol** – cyllid wedi ei glustnodi ar gyfer tyfu perllan cymunedol. Yn gofyn a ydi Clwt Foty yn leoliad addas ar gyfer y datblygiad? Yn gofyn i'r Cyngor am sylwadau.

**BW** – Clwt Foty yn fler iawn gyda gordyfiant a mieri. O'r farn y byddai Clwt Foty yn ardal boddhaol ar gyfer berllen

**EW** - yn cefnogi'r syniad. Oes gwaith wedi ei wneud ar y math o bridd fyddai'n addas i dyfu perllan?

**DR** – *cyfnod rhagarweiniol ydi hwn ond bydd gwasaneth arbennigwyr yn cael ei brynu unwaith y bydd safleoedd wedi ei adnabod.*

**GOJ** - Clwt Foty yn broblem o ran gordyfiant a moduron ar y safle, yn cytuno gyda BW - ei leoliad yn foddhaol i ddatblygu perllan.

**Diolchodd y Cadeirydd i Dion am ei gyflwyniad gan ofyn iddo ddod yn ôl at y Cyngor unwaith y bydd y syniad wedi ei ddatblygu ganddo.**

## **5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 6 Gorffennaf 2020 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 6 July 2020 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

## **6 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

## **Gwasanaeth Torri Gwair oddi fewn Pentrefi - Grass Cutting Service Within the Villages**

Cafwyd diweddariad gan y Rheolwr

Steffan Jones , Pennaeth Amgylchedd Cyngor Gwynedd wedi datgan ei fod yn bwriad ganddo gychwyn trafodaethau ym mis Medi gyda Cyngorau Cymuned i adolygu a cynnig gwelliannau i'r trefniadau presennol.

***Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth  
Resolved – to accept the information***

20-07b-08 **Llecyn o Dir Adran Addysg ger Ysgol Bro Llifon** – cwynion am gordyfiant. Adran Cynnal Tiroedd Cyngor Gwynedd am glirio'r safle

***Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth  
Resolved – to accept the information***

20-07b-09 **Llwybr 12 – Japanese Knotweed**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod yr ymgymwrwr wedi egluro rhaid oedd iddo ddefnyddio “chainsaw” i agor y darn o'r llwybr o'r giat fochyn gan fod y gordyfiant mor drwchus.

I'r dyfodol, os bydd Japanese Knotweed yn tyfu ar y llwybrau cyhoeddus, bydd angen i'r Cyngor sicrhau fod ein ymgymwrwr yn cael cyfarwyddiadau clir o sut i ymdrin y palnhigyn yn arbeenig o dull o'i weithredu.

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi anfon cyfarwyddiadau i'r Cyngor hwn, linc o gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru, ar sut i weithredu ac a gwaredu y planhigyn.

Sylwadau Aelodau

**CB** – cyfarwyddiadau gan CG yn egluro y trefniadau. Angen i'r ymgymwrwr fod yn ymwybodol o trefniadau gwaredu gan fod y planhigyn yn ymledu.. Dylai fod pob ymgymwrwr cynnal tiroedd yn medru adanbod y panhigyn ac yn ymwybodol o'r cyfarwyddiadau/trefniadau gwaredu.

***Penderfynwyd – cyfeirio y mater i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau  
Resolved – to refer the matter to the Cemeteries & Assets Committee***

20-07b-10 **Clwt Foty, Carmel**

Adroddwyd gan y Rheolwr -

**Cerbydau** - Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd methu gweithredu gan fod tystiolaeth (o Google Earth) yn dangos fod cerbydau ar y safle ers dros 20 mlynedd. Nid oes unrhyw bosibilrwydd y byddai Cyngor Gwynedd yn cael gorchymun llys i waredu y cerbydau. Gellir ystyried dod ar mater i sylw yr Heddlu os ydi'r cerbydau heb ei trethu.

***Penderfynwyd nodi'r wybodaeth heb sylwadau  
Resolved – to note the information without comments***

20-07b-11 **Technoleg (TGCh) – Tabledi, Trefniant ebyst newydd a Polisi TGCh**

Adroddwyd gan y Rheolwr

- i) Cyfrifiaduron Whitton wedi cadarnhau fod yr offer wedi ei archebu. Disgwyl iddynt gyrraedd Dydd Mercher, 29 Gorffennaf.
- ii) Cyfeiriadau e-bost wedi ei sefydlu. Bydd y Rheolwr yn anfon gohebiaeth i pob aelod ar y cyfiriad newydd a cyfeiriad personol am gyfnod o dywed tri mis cyn symud i ddefnyddio cyfeiriad y Cyngor yn unig.

***Penderfynwyd - derbyn y wybodaeth  
Resolved – to accept the information***

Gofynnodd y Cadeirydd os oedd gan aelodau unrhyw sylwadau, neu addasiadau, ar gyfer y polisi drafft oedd wedi ei anfon allan gyda'r rhaglen gan y Rheolwr.

**EW** – yn awgrymu fod angen cynnwys addasiadau yn egluro fod angen dychwelyd yr offer os ydy aelod yn ymddiswyddo ac ambell addasiad arall ynglŷn â defnydd. Angen sicrhau fod Cyfrifiaduron Whitton yn gosod yr “apps” a rhaglenni priodol ar yr offer cyn ei dosbarthu (ee Zoom, Outlook)

**GOJ** - yntau yn awgrymu fod angen man addasiadau - am anfon y rhain ymlaen i'r Rheolwr

**DCD** - yn bwysig fod pob aelod yn arwyddo'r polisi wrth dderbyn, neu cyn derbyn, yr offer.

**AWJ** – yn awgrymu y dylid dosbarthu y tabledi yn ystod Awst ac arwyddo y polisi. Yn awgrymu treilau yr offer cyn cyfarfod llawn mis Medi.

**MP** – angen sicrhau fod y cyfeiriadau ebost newydd ar y tabledi.

***Penderfynwyd ar y canlynol-***

- i) Fod y Cyngor yn mabwysiadu y Polisi gyda'r addasiadau sydd yn cael ei gynnig gan EW a GOJ***
- ii) Fod y Rheolwr yn gofyn i Cyfrifiaduron Whitton i osod “apps” sydd yn briodol i waith y Cyngor ar yr offer cyn eu rhyddhau.***
- iii) Fod y Cyngor yn cynnal cyfarfod diwedd mis Awst i dreialu defnydd o'r offer***

***The following was resolved-***

- i) That the Council adopts the Policy with the modifications proposed by EW and GOJ***
- ii) That the Manager requests Whitton Computers to install appropriate “apps” that is relevant to the Council's work on the equipment prior to release.***
- iii) That the Council holds a meeting in late August to trial the use of the equipment Council***

Sylwadau Aelodau –

**EW** - angen dod i sylw'r Cyngor

- 1) Trigolion y Fron yn monitro nifer y cerbydau sydd yn dod o'r chwarel gan fod y nifer yn uwch na'r hawl ar y drwydded.
- 2) Y cwmni rŵan yn prosesu llechi lawr i lwch ar y safle yn groes i'r hawl cynllunio. Dywedwyd fod y lorïau yn cario fwy o ddeunydd na sydd wedi ei ganiatáu a bod hyn yn groes i'r Ddeddf Trafnidiaeth, ac hefyd yn beryglus.

**AWJ** – yn gofyn i EW ydi Cyng. Dilwyn Lloyd yn ymwybodol o'r sefyllfa?

**EW** – ydi, ac mae DLI a Dafydd Gareth Jones, Swyddog Mwynau Cyngor Gwynedd yn aelodau o Alexandra.

**EW** – yn ymddangos fod Cyngor Gwynedd a Grŵp Alexandra yn caniatáu i'r contractor dorri amodau y drwydded yn Blaen Fferam, ond eto yn mynnu fod y contractwyr yn Moel Tryfan yn cydymffurfio.

**AP** - y llechi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y ffordd newydd (ffordd osgoi Bontnewydd). Rhaid i ni fyw hefo mwy o lorïau o'r chwarel. Nifer fawr o drigolion y Fron a Carmel wedi cefnogi adeiladu'r ffordd newydd. Yn gwneud y sylw fod gan lorïau'r hawl i deithio i fyny ac i lawr y ffordd os ydi'r lorïau hynny wedi ei threthu yn gyfreithlon.

***Penderfynwyd nodi'r drafodaeth, pryderon trigolion y Fron a monitro'r sefyllfa.***

**Resolved to note the discussion, the concerns of residents of Y Fron & to monitor the situation.**

20-07b-14 **Bethesda Bach -**

Adroddwyd gan CB er gwybodaeth -  
**Ffens ger Ty Mawr** - wedi ei dynnu  
**Lon ger Ty Newydd** - heb ei adfer hyd yma

20-07b-15 **Bryn Mor, Dinas Dinlle**

Adroddwyd gan y Rheolwr nad oedd llythyr wedi ei anfon l'r asiantaethau gan ei fod wedi gofyn i Cyng. Dyfed Williams am engrifftiau o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn Bryn Mor, Dinas Dinlle.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth**  
**Resolved to accept the information.**

20-07b-16 **Gwaith i'r Cyngor – Prisiau gan Contractwyr**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod y Rheolwr wedi derbyn prisiau ar gyfer y gwaith canlynol -

**Dymchwel Cwt Fynwent Carmel –**  
Tri pris i law. Un heb yswiriant dilys. Derbyn pris Gwalch.

**Penderfynwyd - derbyn pris Cwmni Gwalch - £710**  
**Resolved – to accept the price by Gwalch - £710**

**Clirio Mieri a Prysgoed o Mynwentydd Bryn'rodyn a Landwrog**  
Dau pris i law. Derbyn pris Ifan ac Idris Jones – pris lleiaf.

**Penderfynwyd - derbyn pris Ifan ac Idris Jones o £540.**  
**Resolved – to accept the price of Ifan & Idris Jones of £540**

**Torri Gwair a Clirio Rwbel - Clwt Foty, Carmel**

Dau pris i law. Derbyn pris Ifan ac Idris Jones – pris lleiaf. Nodwyd gan y Cadeirydd mai amcanbris sydd wedi ei dderbyn gan fod y prisiau yn amodol ar maint y rwbel sydd wedi ei arllwys yno.

Sylwadau Aelodau –

BW – yn atgoffa aelodau fod addewid wedi ei wneud peth amser yn ôl gan Dion Roberts i gyflawni y gwaith yn Clwt Foty.

**Penderfynwyd – fod Cyng. Bryn Williams yn gofyn i Dion Roberts os ydi'r gwaith am gael ei gyflawni oddi fewn Cynllun Tir Comin Uwch Gwryfai, ac os ddim fod y Cyngor yn derbyn amcan bris Ifan ac Idris Jones o £400 ac yn symud ymlaen yn syth gyda'r gwaith**  
**Resolved – that Cllr. Bryn Williams asks Dion Roberts if the work is to be carried out within the Uwch Gwryfai Common Land Scheme, and if not the Council accepts Ifan and Idris Jones's estimate of £ 400 and will proceed immediately with the work.**

20-07b-17 **7 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 13 Gorffennaf 2020 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Finance Committee Meeting held on 13 July 2020 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.  
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

20-07b-18 **8 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**20-07b-19 **Balansau y Cyngor ar 30 Mehefin 2020 / Council Balances as at 30 June 2020**

Sefyllfa Cronfeydd y Cyngor ar 30 Mehefin 2020 / Fund Balances as at 30 June 2020	Balansau Y Cyngor ar 31/3/2020 / Council Balances as at 31/3/2020	(Defnydd) neu Ychwanegiadau yn 2020-21 / (Application) o'r Additions in 2020/21	Balansau y Cyngor ar 30/6/2020 / Council Balances as at 30/6/2020
Arian Wrth Gefn - Contingency Fund (Policy)	£3,500.00	£1,500.00	<b>£5,000.00</b>
Cronfa Caeau Pel droed / Football Fields Renewal Fund	£2,000.00	£1,000.00	<b>£3,000.00</b>
Cronfa Caeau Pel droed Groeslon - Groeslon Football Field Fund	£0.00	£1,000.00	<b>£1,000.00</b>
Cronfa Lloches Bws Dinas Dinlle ' Dinas Dinlle Bus Shelter Fund	£0.00	£2,500.00	<b>£2,500.00</b>
Tanwariant 2019-20 - lleihau praesept 2020-21 / 2019-20 Underspend to reduce the precept	£2,000.00	(£2,000.00)	<b>0.00</b>
Gwefan Newydd / New Website	£2,185.00	(£2,185.00)	<b>0.00</b>
Tanwariant 2019-20 -heb ei glustnodi / 2019-20 Underspend - not earmarked	£1,221.20	(£1,221.20)	<b>0.00</b>
Incwm Ymlaen Llaw / Income Received in Advance	£100.00	(£100.00)	<b>0.00</b>
<b>Cyfanswm Cronfeydd y Cyngor / Total Council Funds</b>	<b>£11,006.20</b>	<b>£493.80</b>	<b>£11,500.00</b>

**Sefyllfa Ariannol y Cyngor at 30 Mehefin 2020 (Adolygiad Chwarter 1af) / Financial Position as at 30 June 2020 (1<sup>st</sup> Quarter Review)**

Praesept 2020-21 Precept	(£64,000.00)
Defnydd Net o Balansau 2020-21 / Net Use of Balances	£493.80
<b>Yn gadael Cyllideb 2020-21 / Leaving a Budget of</b>	<b>(£63,506.00)</b>
Gwariant y disgwylir 2020/21 Expected Expenditure	£68,754.04
Incwm y Disgwylir 2020/21 Expected Income	(£5,440.00)
<b>Gwariant Net 2020/21 Net Expenditure</b>	<b>£63,314.04</b>
<b>Gor (Tan) wariant Chwarter 1af 2020-21 / 2020/21 1st Quarter Over (Under) Expenditure</b>	<b>(£191.96)</b>

**Cysoniad y Banc ar 30 Mehefin 2020 / Bank Reconciliation as at 30 June 2020**

<b>Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2020 / Bank Reconciliation to 30 June 2020</b>	
Balansau'r Banc i 30 Mehefin 2020 / Bank Balances as at 30 June 2020	(£30,928.71)
- Llai Credydwy'r a Sיעiau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£3,936.17
+ Dyledwyr / Debtors	(£1,509.00)
<b>Cyfanswm Arian Y Cyngor at 31 Mehefin 2020/ Total Cash as at 30 June 2020</b>	<b>(£28,501.54)</b>
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	<b>(£32,000.00)</b>
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£60,501.54)</b>
Gwariant ymrwymedig i 31 Mawrth 2021 / Committed Expenditure to 31 March 2021	£53,558.61
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2021 / Income due to 31 March 2021	(£4,749.03)
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£11,691.96)</b>
Llai Cronfeydd Penodol / Less Specific Funds	£11,500.00
<b>Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2021 / Total Over (Under) spend expected as at 31 March 2021</b>	<b>(£191.96)</b>

*Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn –*

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau, y sefyllfa ariannol a cysoniad y banc at 30 mehefin 2020 fel a nodwyd yn y tablau uchod.*
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn argymhellion y Pwyllgor o ran addasiadu i'r gyllideb fel a nodwyd yn para 4.5, 4.6, 4.7, 4.8, 4.9, 4.10, 4.11 a 4.12 o cofnodion y Pwyllgor*

*Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows -*

- i) That the Council accepts the accuracy of the balances, the financial position and the bank reconciliation as at 30 June 2020 as noted in the tables above.*
- ii) That the Council accepts the Committee's recommendations as noted in paras 4.5, 4.6, 4.7, 4.8, 4.9, 4.10, 4.11 and 4.12 of the minutes*

20-07b-20 **Gwerth Asedau y Cyngor / Value of Council Assets**

*Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn –*

- i) Fod y Cyngor yn gofyn i Adran Stadau Cyngor Gwynedd am arweiniad o sut mae dangos gwerth mynwentydd yn y fantolen ariannol yn sgil buddsoddiad hanesyddol sydd wedi ei wneud.*
- ii) Fod y Cyngor yn ystyried yr ymateb gan Cyngor Gwynedd wrth adolygu y polisi yswiraint yn Medi 2020.*

*Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows -*

- i) That the Council asks Gwynedd Council's Estates Department for a guidance of how to show the value of cemeteries in the financial balance sheet as a result of a historic investment made.*
- ii) That the Council considers the response from Gwynedd Council when reviewing the insurance policy in September 2020*

20-07b-21 **Trosglwyddo Balans Cronfa Diffribiliwr Groeslon i'r Cyngor – Groeslon Difribilator –**

*Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn –*

*Fod y Cyngor yn gohirio y mater hyd nes y bydd y sefyllfa gyda peiriant y Church Room (Gas It) yn eglur.*

*Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows -*

*To defer a decision until the situation with the machine in the Church Room is resolved*

20-07b-22 **9 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 20 Gorffennaf 2020 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Finance Committee Meeting held on 20 July 2020 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.  
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

20-07b-23 **10 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

20-07b-24 **Asesiad Risg – Trefnadau Gweinyddol ac Ariannol / Financial & Administration Financial Risk Assessment**

*Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn –*



- i) **Fod y Cyngor yn mabwysiadu y ddogfen “Asesiad Risg Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021”.**
- ii) **Fod y Cyngor yn ymrwmo i greu Cynllun Parhad Gwasanaeth pe byddai'r rheolwr yn absennol o'i waith am gyfnod ac fod y gwaith hwn yn cynnwys trefniadau talu credydwr.**
- iii) **Fod y Cyngor yn enwebu y pwyllgor priodol i gyflawni y gwaith .**

**Recommendation to the Council-**

- i) **That the Council adopts the document "Annual Risk Assessment for the Year ending 31 March 2021".**
- ii) **That the Council undertakes to create a Service Continuity Plan should the manager be absent from work for a period of time and this should include arrangements to pay creditors.**
- iii) **That the Council nominates the appropriate committee to carry out the work.**

**Enwebwyd y canlynol i'r gweithgor**

Cynghorwyr Alun Wyn Jones, Gwyn Owen Jones, Marnel Pritchard, Bryn Williams, David C Davies a'r Rheolwr.

---

20-07b-25 **11 Materion yn Codi gan Aelodau**

**Aelodau Ward Y Groeslon –**

**“The Ark” , Y Groeslon**

Adroddwyd gan y Cadeirydd - menter masnachol ar gyrion y pentref sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar ac heb fawr o rybydd. Gofynnodd i Cynghorydd Eric Jones am ei sylwadau

**Cynghorydd Eric Jones**

- Y mater wedi bod yn destun siarad yn y pentref.
- Wedi ffensio y tir i gadw anifaeliaid.
- Y ffaith ydi mae gan y perchennog hawl i gadw anifaeliad tebyg i Lamas ar y safle – mae ganddo hawl i ffermio y tir – ond dim hawl i godi ffi mynediad.
- Dim cais cynllunio wedi ei gyflwyno.
- Mynediad i'r safle ydi'r problem fwyaf – tydi'r ffordd heibio'r ysgol ddim yn addas.
- Swyddogion Gorfodaeth ac Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn edrych ar y mater.

**Sylwadau aelodau -**

GO – gwefan gan y perchennog a tudalen Facebook yn datgan ei fod yn fwriad agor y safle yn fuan yn mis Awst. Hyn yn fater o bryder i trigolion lleol

DCD - yn ategu yr hynny sydd dan sylw gan GO. Cyfeiriad hefyd at agor safle campio ar y safle EJ – hawl i ganiatáu safle campio am 28 diwrnod heb gais cynllunio

**Penderfynwyd derbyn a nodi y wybodaeth a monitro y sefyllfa.**

**Resolved – to accept and note the information received and to monitor the situation**

---

20-07b-26 **12 Covid 19 – Effaith ar ein Cymuned / Covid 19 - It's Effect on our Community**

20-07b-27 **Cais am grant gan bentref y Fron am £400 -**

## **Sylwadau Aelodau**

**EW** - cafwyd esboniad ganddo o beth oedd dan sylw gan Grŵp Datblygu'r Fron gyda'r arian. Eglurodd fod pwyllgor trigolion y pentref newydd wedi ei sefydlu (Fron Residents Committee) sydd yn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu cinio Dydd Sul yn rhad ac am ddim i bobol fregus pentrefi Y Fron a Carmel.

I gydymffurfio a rheolau cadw pellter 2 medr mae angen byrddau y tu allan yn y Ganolfan. Mae'r cais gan y Grwp felly am gyfraniad i brynu byrddau ac offer glanhau. Bydd y gost dros £1,000 gyda'r trigolion yn barod wedi casglu £400. Bydd yr arian yn cael ei dalu drosodd i'r Ganolfan. Bydd Pwyllgor y Trigolion yn gwneud gwaith tu allan i'r Ganolfan o wneud llwybr concriid. Pwysleisiodd EW nad yw'r Ganolfan, na'r Grwp, yn gofyn i'r Cyngor Cymuned am arian i ddarparu'r cinio.

**Rheolwr** – nodwyd ganddo fod trigolyn o'r Fron wedi cysylltu yn ymholi am grant o'r Fron I ddsbarthu pecyn bwyd/eitemau hanfodol. Awgymodd y Rheolwr iddi gysylltu gyda Cyngorydd Eddie Willcox cyn symud ymlaen.

**AWJ** - bydd rhaid i EW ddatgan buddiant yma. Angen cais ffurfiol gan y Grwp gydag esboniad clir a llawn o'r bwriad gan mai arian cyhoeddus sydd dan sylw. Rhaid i'r Grwp ddilyn y proses cywir.

**DCD** – Pentref Y Fron wedi derbyn £100 eisoes. Dim gwrthwynebiad i gyfrannu. Ofni cais gan grŵp arall o'r Fron fel nodwyd gan y Rheolwr?

**AP** – cytuno fod angen cais ffurfiol. Angen rhyddhau yr arian cyn mis Medi os ydi'r cais yn un dilys

**MP** - awgrymu i'r Cyngor gytuno ar y cyfraniad a rhoi hawl dirprwyedig i'r Rheolwr a'r Cadeirydd i weithredu unwaith y daw y cais ffurfiol i law?

**Rheolwr** - yn atgoffa'r aelodau fod y Cyngor eisoes wedi rhoi hawl dirprwyedig iddo weithredu hyd at geisiadau am £500 i bob pentref.

***Penderfynwyd gofyn i Grwp Datblygu Y Fron am gais ffurfiol, clir a llawn cyn i'r Rheolwr rhyddhau y gweddill o'r arian (sef £400)***

***Resolved – to ask The Fron Development Group for a formal, full and clear application before the manager will consider realleasing the remaining £400***

## 20-07b-28 **Grant y Loteri/ Lottery Grant**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod Cyngor Cymuned Llanwnda wddi llwyddo i gael grant o dros £9,000 i ddarparu cinio poeth Dydd Sul yn wythnosol i drigolion bregus/oedranus y gymuned.

Aeth ymlaen i ddatgan fod gwirfoddolwyr Y Groeslon yn awyddus i wneud cais. Mae'n debyg y byddai y cais i Groeslon yn £6,000. Cwestiwn wedyn yn codi beth am Llandwrog, Dinas Dinlle, Fron a Carmel? Dywedwyd mai Cyng. Aeron Jones sydd wedi cyflwyno cais am grant dros Gyngor Llanwnda. Yr unig rôl sydd gan y Cyngor yw derbyn yr arian a rhyddhau taliadau.

Yn gofyn i'r aelodau - oes dymuniad gwneud cais? Rhybuddiwyd fod cyflwyno cais yn golygu gwaith ac ymrwymiad sylweddol (casglu data etc) heb sôn wedyn am weithredu i ddarparu dosbarthu'r bwyd yn wythnosol am gyfnod o amser.

Sylwadau Aelodau –

**EW** - yn llongyfarch Cyngor Llanwnda. Grŵp Y Fron wedi ystyried y mater. Yn dweud fod sail y cais yn gywir ond fod y meini prawf yn anghywir. Meini prawf y Cyngor (Llanwnda) yw darparu bwyd i bawb dros 65 oed ond yn eithrio pobol di waith, rheini sengl, pobol anabl, a phobol gyda phroblemau iechyd meddwl. Nodwyd ganddo nad yw pawb dros 65 ddim angen y cinio.

**GO** – Ffrindiau Y Groeslon yn awyddus i gyflwyno cais, ond yn gofyn beth yw ymateb y Cyngor cyn iddynt gyflwyno cais.

**DCD** - yn cytuno gyda meini prawf fel nodwyd gan EW.

**GO** - yn awgrymu fod y Cyngor yn gwneud un cais dros y pump pentref gyda'r pump pentref yn gweithio yn annibynnol i ddsbarthu y prydau. Cysylltu gyda'r Rotary i weld beth ydi'r angen

**BW** - oes posib cysylltu gyda'r Loteri i dderbyn gwybodaeth o drefniadau cyflwyno cais.

Rheolwr - ar ddallt fod y cais sydd angen i'w gyflwyno ar sail niferoedd. Gwaith mawr felly ei angen i gasglu data yn arbennig os am ddilyn meini prawf fel nodwyd gan EW.

AWJ - Groeslon yn awyddus cychwyn yn Medi, felly amser yn brin. Angen cyfarfod buan felly wedi derbyn gwybodaeth gan y Loteri er mwyn rhyddhau'r wybodaeth i grwpiau lleol, hen ei dal yn ôl.

GO – ddim angen cyfarfod. Rheolwr i anfon cynllun i bob aelod. Gormod o rwystredigaethau. Anodd cael cynllun mewn lle. Yn debyg bydd rhaid i bob pentref gyflwyno cais ei hunain ond fod y Cyngor yn eu cefnogi.

GOJ – cytuno fod yna waith sylweddol casglu data, yn arbennig os am fynd am feini prawf fel nodwyd gan EW. Dim rheswm dal y pentefi sydd yn barod i fynd .

***Penderfynwyd – na fydd y Cyngor yn cyflwyno cais i'r Loteri am grant , ond fod y Cyngor ar gael i gefnogi y pentrefi hynny sydd yn dymuno gwneud cais.***

***Resolved – that the Council will not be making a grant application to the Lottery, but the Council will support any village that decides to make an application.***

### 20-0b-29 **13 Gwefan Newydd – New Website**

Cais gan y rheolwr i ofyn i Delwedd ddylunio enw'r Cyngor ar y wefan newydd. Derbyniwyd amcanbris o £250

***Penderfynwyd – gohirio y mater ac i'r Rheolwr ddod a manylion pellach gerbron y Cyngor i gefnogi'r cais ym mis Medi***

***Resolved – to defer the matter until September and for the Manager to bring more information to support the request.***

### 20-07b-30 **14 Ceisiadau Cynllunio – Planning Applications**

<https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?language=cy&fa=search>

Adroddwyd gan y Rheolwr fod perchennog y tir wedi egluro iddo mai y giat gyferbyna Berwyn fydd yn cael ei ddefnyddio fel mynediad at y sied.

CB – cais am godi sied ydi hwn nid cais cais am fynediad newydd. Yn cefnogi'r cais

20-07b-31 Cais Rhif / Application Number - **C20/0404/22/YA**  
Cyfeiriad / Address - **Tyddyn Perthi, Carmel LL54 7DP**  
Bwriad / Proposal - **Hysbysiad Ymlaen Llaw i Adeiladau Sied Amaeth/Coed**

**Penderfyniad - dim sylwadau.**  
**Resolved - no comment.**

### 20-07b-32 **15 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

<b>Manylion / Details</b>	<b>Swm heb y TAW / Excluding VAT</b>	<b>Swm Hefo TAW- Amount with VAT</b>	<b>Rhif Siec/ Cheque Number</b>
Cyflog y Rheolwr – Gorffennaf – <a href="#">Managers Salary July</a>			Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>

HMRC-Treth Incwm Gorffennaf – Income Tax July			Uniongyrchol/Direct
NEST– Cyfraniad y Cyngor Gorff / Employers C'btions July			Uniongyrchol/Direct
NEST– Cyfraniad y Rheolwr Gorff / Manager C'btions July			Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Gorff – Managers Allowance July			Uniongyrchol/Direct
Whitten Computers – sefydlu ebost y Cyngor	£120.00	£144.00	Uniongyrchol/Direct
ALW – Cyfiethu / Translation	£218.12	£218.12	Uniongyrchol/Direct
Clerks & Council Direct - Tanysgrifiad	£60.00	£60.00	Uniongyrchol/Direct

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Rheolwr i ryddhau'r oll daliadau.  
Resolved to accept the information and to authorise the Manager to release all the payments***

20-07a-33 **16 Cyfarfodydd Nesaf –**

Cyfarfod Mis Medi l'w gadarnhau / tbc

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:55 yr hwyr / The meeting ended 9:55 pm**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate**

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**

**Signed by the Chairman**

**Dyddiad - Date**